**Y Pwyllgor Busnes BC220-01(terfynol)**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 19 Mehefin 2001
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol (Cadeirydd Dros Dro)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/y Dirprwy Lywydd
Angela Parkes, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Anfonodd y Dirprwy Lywydd ymddiheuriadau am na allai fod yn bresennol.

## 2. Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol

**Mehefin 2001 BC198-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn y ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylw, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**12 Mehefin BC210-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Gan na chafwyd unrhyw sylw, byddai'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf yn eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC210-01)

3.1 **Paragraff 3.2** Dywedodd y Trefnydd nad oedd wedi cael cyfle i drafod y papur ynghylch gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer cwestiynau'r Prif Weinidog gyda'r Prif Weinidog ers iddo ddychwelyd o daith fusnes swyddogol dramor. Gobeithiai, fodd bynnag, y byddai'n medru gwneud hynny cyn y cyfarfod yr wythnos ganlynol. **Gweithredu: y Trefnydd i roi adroddiad ar hyn.**

**3.1 Paragraff 3.4** Dywedodd y Trefnydd ei fod yn cydnabod pwysigrwydd y cynnig diddymu a gyflwynwyd gan Glyn Davies ar gyfer Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001 (NNDM 663) a bod swyddogion yn ymchwilio i'r mater. Atgoffodd William Graham y Pwyllgor bod yr amseriad yn bwysig gan fod darpariaeth fachlud yn y rheoliadau. Nododd y Cadeirydd bod dyletswydd statudol ar y Cynulliad i neilltuo amser yn y Cyfarfodydd Llawn i drafod cynigion o'r fath. Mae Adran 67(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn nodi bod yn rhaid i weithdrefnau ganiatáu i unrhyw Aelod o'r Cynulliad wneud cynnig i ddiddymu deddfwriaeth, o fewn y 40 diwrnod ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn Weithredol. Dywedodd Jocelyn Davies fod hyn yn wrthbwysiad hanfodol i'r weithdrefn Weithredol. Roedd yn hanfodol bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle i arfer eu hawliau, a dylid trafod cynnig diddymu ar ôl iddo gael ei gyflwyno. **Gweithredu: y Trefnydd.**

## 4. <u>Is-ddeddfwriaeth</u>

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi gohirio ystyried Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001 (BC204-01) yng nghyfarfod yr wythnos flaenorol am nad oedd wedi'i gyhoeddi ar y fewnrwyd cyn hynny am y cyfnod o 10 niwrnod y cytunwyd arno. Dywedodd Marion Stapleton fod y Pwyllgor Deddfau'n fodlon tynhau amser y gorchymyn. Golygai hyn y gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried y Gorchymyn yr wythnos hon heb beryglu'r dyddiad y daeth i rym.

4.2 Mynegodd William Graham bryder bod darnau eraill o ddeddfwriaeth ddrafft ar yr agenda wedi torri'r cytundeb hwn hefyd. Dywedodd Jocelyn Davies fod angen amser ar y Rheolwyr Busnes i ymgynghori'n llawn â'u haelodau. Nododd y Trefnydd na dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch dyddiadau cyflwyno'r gorchmynion dan sylw. Dywedodd Marion Stapleton ei bod yn debygol y byddai amser yn fwy prin wrth i'r toriad nesáu er mwyn caniatáu digon o amser i swyddogion lunio'r ddeddfwriaeth. Dywedodd y Cadeirydd y dylai hon fod yn broses eglur. Roedd gofyn i'r Rheolwyr Busnes ymgynghori'n eang ac felly roedd angen y 10 niwrnod llawn.

4.3 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papurau BC204-01; a BC212-01 hyd BC215-01 a roddai wybodaeth oddi wrth Weinidogion ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â 5 darn o is-ddeddfwriaeth. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon unrhyw orchmynion drafft at bwyllgor pwnc ac y dylent ddilyn y weithdrefn a argymhellwyd. **Yn ddiweddarach, dyfarnodd y Llywydd, yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, nad oedd angen cyfeirio'r pum gorchymyn canlynol at y pwyllgorau pwnc.**

- **Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001 (BC204-01)** *Y Weithdrefn Safonol*

- **Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC212-01)** *Y Weithdrefn Gyflymach*

- **Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 (BC213-01)** *Y Weithdrefn Safonol*

- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC214-01)** *Y Weithdrefn Gyflymach*

- **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC215-01)** *Y Weithdrefn Safonol*

**5. Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau**

5.1 Cafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd gan y Cadeirydd i ystyried papur BC216-01 ynghylch yr Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cwestiynau'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor fod y papur diwygiedig yn adlewyrchu'n gywir yr hyn y cytunwyd arno yng nghyfarfod yr wythnos flaenorol o ran atebion i gwestiynau ysgrifenedig, ac argymhellodd y dylid cyflwyno'r canllawiau diwygiedig i'w cadarnhau gan y Cynulliad. **Gweithredu: y Swyddfa Gyflwyno**

**6. Pwyllgorau**

Dim

**7. Busnes ar y gweill**

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC217-01 a oedd yn amlinellu'r busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Nododd y Trefnydd fod un newid i fusnes y prynhawn hwnnw gan y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar ei ymweliad â'r Ariannin a Chile. Dywedodd y byddai'r datganiad ar y Fagloriaeth Gymreig, a grybwyllwyd ar gyfer 21 Mehefin, bellach yn ddatganiad ysgrifenedig ac nad oedd bellach yn rhan o fusnes y cyfarfodydd llawn.

**Datganiad Busnes Drafft**

7.3Nododd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog Gwladol yn gwneud datganiad yn y cyfarfod llawn ar 26 Mehefin, yn dilyn araith y Frenhines ar 20 Mehefin. Dywedodd bod awr wedi'i neulltio er mwyn trafod araith y Frenhines ar ddydd Iau 12 Gorffennaf.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

Dim

**9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog (BC219-01)**

9.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried y papur "Newid Arfaethedig i Reol Sefydlog 3 – Penderfyniad ar Gyflogau, Lwfansau a Phensiynau" (BC219-01). Roedd y papur yn ceisio cytundeb y Pwyllgor i gyflwyno cynnig yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo newid bychan i Reol Sefydlog 3 a fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad dalu lwfansau i grwpiau'r pleidiau a rhoi awgrymiadau'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch ynghylch tâl a lwfansau ar waith. Nododd y Cadeirydd mai 5 Gorffennaf oedd y dyddiad arfaethedig ar gyfer ystyried y mater yn y cyfarfod llawn. Trafodwyd y cynnig hwn o ran egwyddor yng nghyfarfod yr wythnos flaenorol a chytunwyd yn ei gylch.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**